

CYFRIFIADURAETH

Fel rheol bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Cyfrifiaduraeth y gallu i:

- Ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau hanfodol, cysyniadau, egwyddorion a theoriâu sy'n berthnasol i gyfrifiaduraeth a chymwysïadau cyfrifiadurol.
- Defnyddio'r ddealltwriaeth honno wrth fodelu a chynllunio systemau cyfrifiadurol i ddibenion dealltwriaeth, cyfathrebu, rhagweld a deall cyfnewid am rai newydd.
- Defnyddio meini prawf a manylebau sy'n addas i broblemau penodol a chynllunio atebion.
- Dadansoddi'r graddau y mae system gyfrifiadurol yn ateb gofynion sydd wedi'u diffinio.
- Defnyddio theori, arferion ac offer priodol i greu manyleb, cynllunio, rhoi ar waith a gwerthuso systemau cyfrifiadurol.
- Cyflwyno dadleuon synhwyrol a rhesymegol clir i gynulleidfaoedd amrywiol (ar lafar, yn electronig neu'n ysgrifenedig) sy'n mynd i'r afael â phroblem neu gyfle i ymdrin â gwybodaeth.
- Deall yr ystyriaethau proffesiynol, moesol a moesegol a wynebir wrth ddatblygu technoleg gyfrifiadurol a chael eich arwain gan arferion proffesiynol, moesegol a chyfreithiol priodol.
- Gweithio fel rhan o dim datblygu a deall y swyddogaethau gwahanol yn y tîm a'r ffyrdd gwahanol o drefnu timau.
- Gweithredu offer cyfrifiadurol gan ystyried ei nodweddion rhesymegol a ffisegol.
- Defnyddio sgiliau adalw gwybodaeth (gan ddefnyddio porwyr, peiriannau chwilio a chatalogau).
- Defnyddio sgiliau rhifedd a defnyddio cyfleusterau TG cyffredinol yn effeithiol.
- Rheoli eich datblygiad personol gan gynnwys sgiliau rheoli a threfnu amser.

Trosolwg o Gyfrifiaduraeth

Mae cyfrifiaduraeth yn ymwneud â deall, cynllunio a datblygu technoleg cyfrifiant a chyfrifiaduraeth; Mae'n asio theoriâu (gan gynnwys y rheini sy'n deillio o ddisgyblaethau eraill fel mathemateg, peirianneg, seicoleg, cynllunio graffeg neu syniadau arbrofol cadarn) gyda'r ateb i broblemau ymarferol uniongyrchol; mae'n cyfuno ethos yr ysgolhaig gyda'r gweithiwr proffesiynol; mae'n sail i ddatblygiad systemau mawr a bach sy'n cefnogi amcanion cyfundrefnol; mae'n helpu unigolion yn eu bywydau bob dydd; mae'n holl bresennol ac yn cael ei ddefnyddio'n eang, ac eto mae cydrannau pwysig yn rhy fach i'r llygaid eu gweld.

Mae graddedigion Cyfrifiaduraeth yn dilyn gyrfaoedd mewn meysydd technolegol fel gweithrediadau cyfrifiadurol, gwerthu a gwasanaethu systemau cyfrifiadurol, rhaglennu, dadansoddwr systemau, peiriannydd meddalwedd ac awdur technegol yn ogystal â swyddi sy'n gofyn am gyfuniad o alluoedd cyfrifiadurol a galluoedd eraill.

Ffynhonnell: CIHE 2006

